WGOS

# Cylchlythyr

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

*Ail Rifyn, Awst 2023*

## Croeso

Bydd Cylchlythyr WGOS yn eich cefnogi i lywio drwy ddiwygio contract optometreg Llywodraeth Cymru. Bydd pob cylchlythyr yn rhoi crynodeb o bwnc penodol gyda dolenni i adnoddau a chymorth perthnasol. Gydag awgrymiadau a chyngor i'ch helpu i baratoi ar gyfer y gwasanaethau optometreg newydd…***rydym yma i'ch cefnogi chi.***



Bydd rhaglen ddiwygio WGOS yn gweld yr ystod o wasanaethau gofal llygaid a ariennir gan y GIG a ddarperir gan optometryddion, ymarferwyr meddygol offthalmig (OMP) ac optegwyr cyflenwi yng Nghymru yn cynyddu, gyda phob aelod o dîm y practis yn cydweithio i weithio ar frig eu trwydded glinigol berthnasol.

## Bydd cylchlythyr #2 yn canolbwyntio ar: Teclynnau Optegol

***Mae teclynnau optegol ar gael drwy system dalebau sy'n rhywbeth yr ydym i gyd yn gyfarwydd â hi. Yn y bôn bydd hyn yn aros yr un fath, ond gyda'r newidiadau canlynol:***

- Bydd bandiau talebau Newydd yn cael eu hychwanegu ar gyfer presgripsiynau uwch.
- Rhaid rhoi'r opsiwn i gleifion gael teclyn optegol sy'n ffitio'n dda wedi'i dalu'n gyfan gwbl gan werth y daleb newydd. Bydd hyn yn newid mawr i rai, ond yn arferol i eraill. Dylai claf yng Nghymru ddisgwyl sbectol sy'n ffitio'n dda os yw'n derbyn taleb, nid arian tuag atynt yn unig.



# Cwestiwn allweddol

? Ydw i'n rheolwr practis neu'n gyfrifol am declynnau optegol?

- Os mai ***'ydw'*** yw eich ateb: paratowch systemau eich practis/busnes a'ch stoc ar gyfer y newidiadau.
- ***Os mai 'nac ydw'*** yw eich ateb: ymlaciwch ac arhoswch am y cylchlythyr nesaf.

# Crynodeb

## Beth?

Bydd darparu teclynnau optegol yn wahanol yn WGOS, ond dim ond ychydig yn wahanol ar gyfer y rhan fwyaf o bractisiau.

- Yn fras, mae bandiau'r talebau yr un peth… ond bydd ychydig mwy o newidiadau.
- Rhaid i gleifion gael y dewis o declyn optegol sy'n ffitio'n dda sydd wedi'i dalu'n gyfan gwbl gan werth y daleb newydd.

## Pryd?

- Disgwylir i newidiadau Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) gael eu cyflwyno ganol fis Hydref pan ddaw'r rheoliadau newydd i rym.

## Sut?

- Cymerwch yr amser hwn i ystyried eich cynhyrchion a'ch prosesau. Ystyriwch yr hyn y byddwch yn ei gyflenwi i gleifion a sut y byddwch yn rheoli hyn yn eich practis.

# Cadwch mewn cysylltiad!

I gael diweddariadau yn y dyfodol trwy e-bost, cofrestrwch eich cyfeiriad e-bost yn: https://forms.office.com/e/4Kksq7sFpu

**Neu;**

neu tynnwch lun o'r cod QR isod gyda'ch ffôn clyfar.

Gellir dod o hyd i gylchlythyrau blaenorol yn:
https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/gweithwyr-proffesiynol/newyddion-diweddaraf-i-weithwyr-proffesiynol/cylchlythyrau-wgos/